



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

**Clwb gofal plant ar ôl ysgol** – mae'r wythnos gyntaf wedi mynd yn hwylus, hoffwn eich atgoffa o'r canlynol;

- Dydd Mercher – dolen ar gyfer archebu lle yn cael ei rhannu drwy e-bost o'r ysgol
- Dydd Iau – angen i chi archebu lle erbyn amser cinio – **ni fydd modd cael ad-daliad am unrhyw absenoldebau / salwch.**
- Dydd Gwener – cyfanswm sy'n ddyledus am yr wythnos a fynychwyd yn ymddangos ar eich cyfrif Parentpay.

**Meirion Morgan** – Cofiwch y bydd Mr. Morgan (y cyn ofalwr) wrth gât yr ysgol ddydd Mercher nesaf rhwng 8.15 a 9 o'r gloch os ydych am alw heibio i ddweud diolch iddo am ei waith.

**Noson Agored - cyfle i drafod cynnydd eich plentyn gyda'r athro / athrawes** - diolch am archebu eich apwyntiadau ar gyfer y nosweithiau agored ar nos Lun, Hydref 24ain a nos Fawrth, Hydref 25ain. Mi fydd staff cynorthwyol yr ysgol wrth y brif fynedfa i'ch hebrwng i'r dosbarthiadau. Mae croeso i chi gyrraedd yn gynt neu aros ar ôl eich apwyntiad er mwyn gweld llyfrau eich plant.

**Gwyliau hanner tymor** – mi fydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau hanner tymor ar ddydd Iau, Hydref 27ain ac yn ail agor ar ddydd Llun, Tachwedd 7fed.

**Ffair Nadolig** - mi fydd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn cynnal Ffair Nadolig unwaith eto eleni, ar nos Iau 24ain o Dachwedd am 6yh. Pris stondin fydd £10. Os oes gennych chi ddi-ddordeb mewn cael stondin gallwch gysylltu â'r Gymdeithas trwy e-bost [crha.ysgol.gymraeg@gmail.com](mailto:crha.ysgol.gymraeg@gmail.com) <<mailto:crha.ysgol.gymraeg@gmail.com>> Cadwch y dyddiad yn glir felly, ac mi ddaw mwy o fanylion am holl weithgareddau'r noson yn fuan.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

**R C Williams, Pennaeth, 21/10/2022**

**After school childcare club** - the first week has gone smoothly, I would like to remind you of the following;

- Wednesday – a link for booking a place is shared by email from the school.
- Thursday – you need to book by lunchtime – **no refunds will be available for any absences / illness.**
- Friday – the total amount for the days already attended will appear on your Parentpay account.

**Meirion Morgan** - please remember that Mr. Morgan (the former caretaker) will be at the school gate next Wednesday between 8.15 and 9 o'clock if you want to drop by to say thank you for his work.

**Open Evening - an opportunity to discuss your child's progress with the teacher** - thank you for booking your appointments for the open evenings on Monday, October 24th and Tuesday, October 25th. The school's assistant staff will be at the main entrance to escort you to the classrooms. You are welcome to arrive earlier or stay after your appointment in order to see your children's books.

**Half term holidays** - the school will close for half term holidays on Thursday, October 27th and re-open on Monday, November 7th

**Christmas Fair** - the Parent Teacher Association will be holding a Christmas Fair again this year, on Thursday 24th of November at 6pm. The price of a stall will be £10. If you'd like to book a stall, you can contact the Association on [crha.ysgol.gymraeg@gmail.com](mailto:crha.ysgol.gymraeg@gmail.com) So, save the date, and more information about the evening's activities will be available soon.

**If you have any concerns about your child's wellbeing or educational development, then please contact me immediately.**

**R C Williams, Headteacher, 21/10/2022**